



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures

Gwybodaeth ddiweddaraf am Dyfodol Clinigol Clinical Futures Update



Newyddion i'ch cymuned News for your Community

20/11/2020



Diweddariadau i chi a'ch cymuned

Dyma'r **pumed** mewn cyfres o gylchlythyrau, y byddwn yn eu darparu i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid lleol ynghylch ein rhaglen Dyfodol Clinigol a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud gydag agoriad cynnar Ysbyty Athrofaol y Faenor. Rydym wedi bod yn anfon y diweddariadau hyn ddwywaith y mis wrth i ni agosáu at agoriad cynnar Ysbyty Athrofaol y Faenor. Byddwn hefyd yn ymrwymo i ddefnyddio'r cylchlythyr hwn ar ôl yr agoriad i'ch diweddarw wrth i ni roi ein Rhaglen Dyfodol Clinigol ar waith a pharhau i wneud newidiadau arfaethedig i'n system ehangach o wasanaethau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.



Mewn rhifynnau blaenorol, rydym wedi siarad am ein safleoedd ysbyty a'r newidiadau sydd wedi bod yn digwydd. Yn y briff hwn, byddwn yn canolbwyntio ar **Ysbyty Athrofaol y Faenor** a'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd a pha wasanaethau fydd yn cael eu darparu yno. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd gyda'n trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu ac rydym yn gobeithio bod llyfryn "Mae eich Gwasanaethau GIG yng Ngwent yn newid" y Bwrdd Iechyd wedi eich cyrraedd erbyn hyn!

Yn gyntaf....

Rydym mor hapus a balch i gyhoeddi bod

YSBYTY ATHROFAOL Y FAENOL

BELLACH AR AGOR YN

SWYDDOGOL!!!!!!!

Ar ôl 16 mlynedd o gynllunio a thair blynedd i'w adeiladu, agorodd yr ysbyty newydd gwerth £350 miliwn, yn Llanfrechfa, Cwmbrân ei ddrysau ar ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020, pedwar mis yn gynt na'r disgwyl. Derbyniwyd yr allweddi ar ddydd Gwener 13 Tachwedd lle'r oeddem yn gallu dechrau symud a throsglwyddo cleifion yn swyddogol cyn i'r ysbyty agor ei ddrysau. Rydym yn falch o ddweud bod popeth wedi mynd fel y




bwriadwyd. Gydag unrhyw ddatblygiad mawr, roedd rhai problemau cychwynnol ond datryswyd pob un yn gyflym iawn, diolch i ymroddiad pawb ynghlwm.

Mae staff ar draws y Bwrdd Iechyd, ein sefydliadau partner a'n contractwyr wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau ein bod yn cyrraedd y diwrnod hwn ac ni allwn ddiolch digon iddynt am yr holl waith caled y maent wedi'i wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd y diwrnod hwn. Efallai mai dyma'r bennod olaf yn y prosiect adeiladu, ond dyma ddechrau'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o'r radd flaenaf mewn canolfan gofal critigol arbenigol i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Beth fydd y Newidiadau Dyfodol Clinigol yn eu golygu i Ysbyty Athrofaol y Faenor a'r gwasanaethau a ddarperir ar y safle hwn

Mae ein canolfan gofal arbenigol a chritigol newydd, Ysbyty Athrofaol y Faenor yn ganolfan ragoriaeth newydd yng Ngwent i drin ein cleifion mwyaf difrifol wael neu'r rhai ag anafiadau sylweddol a hi fydd yr uned drawma ddynodedig ar gyfer Gwent. Bydd gan yr ysbyty 560 o welyau (gan gynnwys troliau a chotiau) ac Uned Asesu Acíwt 24 awr, Adran Achosion Brys, Man Glanio i Hofrennydd a gwasanaeth brys 24/7 i gleifion sydd angen gofal arbenigol a chritigol. Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael yn Ysbyty Athrofaol y Faenor:

- Derbyniadau brys ar gyfer anhwylderau ac anafiadau difrifol ac ar gyfer cleifion sydd angen dadebru
- Llawdriniaethau Brys a Gofal Trawma
- Llawdriniaethau Mawr a Chydafiachedd (mwy nag un cyflwr difrifol)
- Uned Asesu Brys
- Gofal Critigol
- Uned Gardiaidd Acíwt
- Triniaeth Gardioleg ar gyfer Cleifion Mewnol
- Uned Strôc Hyper Acíwt
- Meddygaeth Acíwt
- Uned Obstetreg i Gleifion Mewnol a Genedigaethau Risg Uchel
- Uned Asesu Plant
- Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig ac Uned Gofal Arbennig Babanod
- Cleifion Mewnol Pediatrig
- Llawdriniaethau i Gleifion Mewnol Pediatrig
- Diagnosteg
- Endosgopi Brys



Mewn argyfwng, bydd cleifion y mae angen iddynt gael eu trin gan dîm arbenigol yn mynd yn syth i Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle bydd y lefelau uchaf o ofal a chymorth diagnostig ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.


Bydd rhai cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu Meddyg Teulu yn gallu cael triniaeth yn nes at eu cartref yn eu hysbyty lleol. Os bydd eich iechyd yn dirywio tra'ch bod yn cael triniaeth yn unrhyw un o'n hysbytai a'ch bod angen mynediad at yr arbenigwyr

neu'r gofal critigol a ddarperir yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, byddwn yn eich trosglwyddo yno drwy ein gwasanaeth cludo cleifion pwrpasol.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ynghyd â'n hysbytai eraill yn yr ardal Bwrdd Iechyd ar gael mewn cyfres o daflenni gwybodaeth ar dudalennau gwe'r Bwrdd Iechyd drwy'r ddolen ganlynol:

<https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/dyfodol-clinigol-gofalu-amdanoch-chi-ach-dyfodol/>

Diweddariad ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu:



O ddydd Sadwrn 14 Tachwedd tan ddydd Mawrth 17 Tachwedd, 2020, roedd aelodau o staff o'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i gefnogi'r symud ac roedd y Bwrdd Iechyd yn teimlo'n gyffrous iawn i allu darparu ffilm fyw tu ôl i'r llenni ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wrth i symudiadau fynd rhagddynt gyda lluniau, fideos a chyfweiliadau ag aelodau o staff wrth iddynt baratoi at agoriad yr ysbyty. Felly, ar gyfer y rhifyn hwn, roeddem yn meddwl y byddem yn rhannu gyda chi ychydig o'r straeon anhygoel a'r diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol y llwyddodd y tîm i'w cofnodi yn

ystod y **#SymudMawr** isod:

Mamolaeth

Ar ddydd Sadwrn 14 Tachwedd 2020, cynhaliodd Deb Jackson, Pennaeth Bydwreigiaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan sgwrs fyw am yr uned famolaeth newydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac eglurodd beth fydd yn ei gynnig. Eglurodd y byddai'r uned yn agor ei drysau i gleifion beichiog o 9am ar ddydd Sul 15 Tachwedd, 2020 a bod y staff yn aros yn eiddgar i'r babi cyntaf gael ei eni yn yr uned.



Genedigaeth ein babi cyntaf

Ni fu'n rhaid i'r staff aros yn rhy hir, Poppy Dorothy Brooks oedd y babi cyntaf i gael ei geni yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Ganwyd ar ddydd Sul 15 Tachwedd, 2020 am 12.44pm yn Uned Famolaeth yr Ysbyty, yn pwyso 6 phwys a 15 owns. Roedd Poppy bedwar diwrnod yn hwyr - mae'n rhaid ei bod wedi dal yn ôl i sicrhau mai hi fyddai babi cyntaf Ysbyty Athrofaol y Faenor!

Mae'r holl staff yma yn y Bwrdd Iechyd yn estyn eu dymuniadau gorau a llongyfarchion i Helen, y fam a Tom Brooks y tad.

Y claf Newyddenedigol cyntaf

Dyma Teddy, ein claf Newyddenedigol cyntaf i gyrraedd Ysbyty Athrofaol y Faenor.
Ganwyd Teddy ar 6 Tachwedd yn 30 wythnos a 5 diwrnod oed, yn pwysu 4 pwys a 2 owns.
Derbyniodd Teddy dedi ei hun pan roddwyd arth Ysbyty Athrofaol y Faenor iddo. Croeso i'r byd Teddy!



Uned Gofal Coronaidd

Ar ddydd Llun 16 Tachwedd am 12.30pm cynhaliodd Dr Chris Chick daith fyw o'r Uned Gofal Coronaidd ar ein safle Facebook, a ddangosodd lle y byddwn yn gofalu am bobl â chyflyrau'r galon.

Ein claf Radioleg Ymyriadol cyntaf

Ar ddydd Llun 16 Tachwedd, cwblhaodd ein Tîm Radioleg Ymyriadol eu triniaeth gyntaf yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, gan ddefnyddio'r peiriant radioleg o'r radd flaenaf, newydd sbon Phillips FlexArm - y cyntaf o'i fath yn y DU!
Dr Nimit Goyal, Radiolegydd Ymgynghorol, a Kath Campbell, Radiograffydd Uwch-arolygol wnaeth berfformio'r llawdriniaeth ar ein claf radioleg ymyriadol cyntaf.
Pleser yw cyhoeddi yr oedd y llawdriniaeth yn llwyddiannus iawn, a bod y claf wedi gwella yn sydyn iawn ac wedi gallu dychwelyd adref dim ond **DWY** awr ar ôl y driniaeth!



Mae'r Adran Achosion Brys ar agor nawr!

Ar ddydd Mawrth 17 Tachwedd, 2020 am 2am agorodd yr Adran Achosion Brys yn swyddogol, a golygai hynny fod Ysbyty Athrofaol y Faenor ar agor yn swyddogol i groesawu a thrin ein cleifion!!!

Yr ambiwlans cyntaf yn cyrraedd

Am 02:45am ar ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020, cyrhaeddodd yr ambiwlans cyntaf yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.



Am gyrhaeddiad i'r byd!

Ganwyd hogyn bach ym maes parcio Ysbyty Athrofaol y Faenor ar ddiwrnod agor yr ysbyty.

Gyrrodd y fam Chelsea Waite, a'i phartner Ieuan i'r ysbyty newydd o'u cartref yng Nghoed-duon pan gynyddodd cyfangiadau Chelsea. Roedd popeth yn mynd fel y bwriadwyd hyd nes oedd y cwpl ddwy funud i ffwrdd o'r ysbyty.

Roedd Dr Chris Chick, Radiolegydd Ymgynghorol sydd heb helpu i eni babi ers 1995, yn pasio pan glywodd sgrechfeydd Chelsea a brysiodd ati i'w helpu. Galwodd

Dr Chick am help llaw ac ymunodd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Jordan Oliver a Paige Edwards ag ef, a llwyddodd i eni Flynn yn ddiogel a'i gadw yn gynnes tan i'r bydwagedd a staff Gwasanaeth Ambiwylans Cymru gyrraedd y fan i gymryd yr awenau drosodd. Croeso i'r byd Flynn!

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ABHB.enquiries@wales.nhs.uk neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:



@BwrddIechydAneurinBevan



@BIPAneurinBevan



@BIPAneurinBevan